Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Addrodiad ar y Mesur Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Chwefror 2005

Cynnwys

Casgliadau a chrynodeb o'r argymhellion

1. Cyflwyniad **1**

1.1 Cyhoeddi'r mesur **1**

1.2 Trefniadau gweithio ar y cyd **1**

1.3 Cefndir **1**

2. Y Mesur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) **3**

2.1 Sylwadau Cyffredinol **3**

2.2 Sylwadau ar gymalau penodol yn y Mesur **4**

2.2.1 Atodlen 1 – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Penodi ayb **4**

2.2.2 Atodlen 3 – Awdurdodau Rhestredig **5**

2.2.3 Atodlen 6 – Diwygio Canlyniadol 5

Atodiad 1 – Tystiolaeth lafar **7**

Atodiad 2 – Tystiolaeth ysgrifenedig **8**

Casgliadau a chrynodeb o'r argymhellion

Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn croesawu'n gynnes y Mesur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) ac yn cefnogi'n llwyr y syniad o greu swydd unigol i'r ombwdsmon yng Nghymru.

Rydym yn croesawu hefyd y cyfle i graffu ar y Mesur gyda Phwyllgor Materion Cymreig T?'r Cyffredin. Gwnaethom nifer o argymhellion yn yr adroddiad hwn ac fe'u gwelir isod:

Sylwadau Cyffredinol

Argymhellwn gyhoeddi canllawiau i egluro:

- sut mae trafod materion traws-ffiniol – dylid gwneud yn eglur, pan gyfyd achos sydd yn ymwneud â gwasanaeth traws-ffiniol, ai cyfeiriad cartref yr achwynydd neu gyfeiriad derbyn y gwasanaeth sydd yn pennu pa Ombwdsmon yw'r un perthnasol i gysylltu ag ef;
- perthynas yr Ombwdsmon â Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cyngor Partneriaeth;
- sut mae codi proffil yr Ombwdsmon. Dylid egluro swyddogaeth yr Ombwdsmon a'r math o ymchwiliadau sydd yn briodol; a
- rôl yr Ombwdsmon mewn ymchwiliadau aml-asiantaeth.

Atodlen 1 – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Penodi ayb.

Cymal 1

Argymhellwn ddiwygio'r Mesur i gynnwys gofyn bod Yr Ysgrifennydd Gwladol ond yn cymeradwyo penodi'r Ombwdsmon ar ôl ymgynghori â'r Cynulliad.

Cymal 3

Argymhellwn ddiwygio'r Mesur i wneud cyfnod swydd yr Ombwdsmon yn gyfnod pum mlynedd gyda'r posibilrwydd o ail benodi am gyfnod pellach o bum mlynedd**.**

Atodlen 3 – Awdurdodau a Restrir

Argymhellwn ddiwygio'r Mesur i gynnwys Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymunedol fel awdurdod rhestredig yn Atodlen 3.

Atodlen 6 – Diwygio canlyniadol

Argymhellwn ddiwygio'r Mesur i adfer gallu Ombwdsmon Llywodraeth Leol Lloegr i drosglwyddo achosion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

1. Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddi'r mesur

Cyhoeddwyd *Mesur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)* ar 24 Tachwedd 2004 yn dilyn Araith y Frenhines yn nodi rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer y sesiwn seneddol newydd. Fe'i cyflwynwyd yn Nhŷ 'r Arglwyddi ar yr un diwrnod a'i Ail Ddarllen ar 16 Rhagfyr 2004.

Anfonwyd y Mesur i Bwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn i Gynulliad Cymru gael craffu arno ar 1 Rhagfyr 2004[1].

1.2 Trefniadau gweithio ar y cyd

Y drefn arferol bellach yw i Bwyllgorau Adrannol Dethol yn San Steffan archwilio deddfwriaeth ddrafft a pharatoi adroddiad arni. Maent yn gwneud hyn drwy geisio barn rhanddeiliaid drwy dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig.

Yn ddiweddar, argymhellodd Y Pwyllgor Materion Cymreig fod Tŷ'r Cyffredin yn caniatau'r pwerau i'r Pwyllgorau Dethol gynnal cyfarfodydd ffurfiol ar y cyd â phwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Wrth wneud hyn roedd yn awyddus iawn i osgoi lluosi'r
gwaith craffu cyn deddfu ar fesurau drafft sy'n berthnasol i Gymru drwy alluogi pwyllgorau Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud y craffu yma ar y cyd.

Ar 7 Mehefin 2004, cytunodd Tŷ'r Cyffredin yn ffurfiol ar dderbyn y diwygio angenrheidiol ar ei Reolau Sefydlog i ganiatau gweithio ar y cyd a cynnig tebyg i ddiwygio derbyniwyd Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Mehefin 2004.

Cynhaliodd Y Pwyllgor Materion Cymreig a Phwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus y Cynulliad sesiynau ar y cyd ar 13 Ionawr 2005 yng Nghaerdydd ac ar 17 Ionawr 2005 yn Llundain i dderbyn tystiolaeth lafar ar Fesur Ombwdsmon gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)[2].

1.3 Cefndir

Gwnaed argymhelliad ar gyfer mireinio gwasanaethau'r ombwdsmon yng Nghymru gan Grw^p Cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei Adroddiad yn 1998. Ym mis Tachwedd 2002 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bapur ymgynghorol, *Gwasanaethau'r Ombwdsmon yng Nghymru: Amser Newid,* ar gynnig i dynnu ynghyd Swyddi Ombwdsmon Gweinyddu Cymru, Comisiwn Gwasanaeth Iechyd Cymru a Chomisiwn Gweinyddiaeth Leol Cymru i greu awdurdodaeth unedig i'r Ombwdsmon yng Nghymru, ac un unigolyn yn llywio'r cyfan. Ym mis Hydref 2003 cyhoeddwyd papur

[1] Cofnod Trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhagfyr 1,2004, t.97.
[2] Ceir rhester o'r rhai a roddodd dystiolaeth lafar yn Atodiad 1.

ymgynghori arall, *Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Pwerau ac Awdurdodaeth*, a nod y papur hwn oedd llunio cylch gwaith manwl ar gyfer y swydd newydd.
Yn Nadl Flynyddol Cyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2004 ar gynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol cymeradwywyd, ar gyfer ei gynnig, fesur a fyddai'n creu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i Gymru ac addawodd y Prif Weinidog wneud cais am i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ddadlau dros ei gynnwys yn Araith y Frenhines.

Cawsai Adam Peat, cyn-Gyfarwyddwr yr Adran Llywodraeth Leol a Diwylliant yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, ei benodi yn Gomisiynydd Gweinyddiaeth Leol yng Nghymru ar 1 Hydref 2003 ac yn Gomisiynydd y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru ar 4 Tachwedd 2003 ac fe'i dynodwyd yn Ombwdsmon Anstatudol Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Y Gwir Anrh. Peter Hain AS.

Datganwyd hefyd y bwriad o benodi Adam Peat yn Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ond ni allai ymgymryd â'r swydd yn 2003 am fod y statud yn rhwystro un unigolyn rhag dal y tair swydd ar yr un pryd. Fodd bynnag, dilëwyd y rhwystr hwnnw gan y Gorchymyn *Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Comisiynydd Lleol Cymru) 2004:Penodi Ombwdsmon yng Nghymru* a wnaed gan y Senedd ac a ddaeth i rym ar 24 Medi 2004, a phenodwyd Mr Peat yn Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ar 4 Tachwedd 2004.

Ym mis Gorffennaf 2004 trafododd Pwyllgor Rheoleiddio a Diwygio T[illegible]'r Cyffredin Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Comisiynydd Lleol Cymru) 2004: Penodi Ombwdsmon yng Nghymru. Barn y Pwyllgor oedd bod angen 'sail statudol' a'u hargymhelliad oedd bod 'y Llywodraeth yn cynnwys Mesur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) yn ei rhaglen ddeddfu ar gyfer y sesiwn 2004-05.'

Creodd Deddf *2002 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban* swydd debyg yn yr Alban, gan gyfuno roliau Ombwdsmon Gwasanaeth Seneddol yr Alban a'r Gwasanaeth Iechyd , Ombwdsmon Llywodraeth Leol yr Alban ac Ombwdsmon Cymdeithas Dai yr Alban. Ers Medi 2002 Yr Athro Alice Brown sydd wedi bod yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban.

2. Y Mesur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Nod y Mesur yw creu un swydd ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn lle'r ombwdsmyn presennol ar gyfer Gweinyddiaeth Cymru a Thai Cymdeithasol a swydd Comisiynydd Gwasanaeth Iechyd Cymru. Bydd Ombwdsmon Senedd y DU yn gyfrifol o hyd am archwilio materion sydd heb eu datganoli megis Nawdd Cymdeithasol a Phensiynau, Y Dreth Incwm a Mewnfudo.

2.1 Sylwadau Cyffredinol

Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig inni, dywedodd Don Touhig, Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru a Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus fod y Mesur:

> Yn darparu gwasanaeth modern a hyblyg i aelodau'r cyhoedd sydd am gwyno am ystod eang o ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â Chymru.

Roedd pob corff ac unigolyn a roddodd dystiolaeth inni yn llwyr gefnogol i amcanion y Mesur ac roeddent yn croesawu sefydlu'r swydd unigol o Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Rydym yn llwyr gefnogi'r Mesur ac yn croesawu hwnnw a sefydlu swydd unigol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gynnes. Ychydig o dystiolaeth a gawsom o blaid diwygio sylfaenol ar y Mesur. Mae gennym amryw o fân bryderon, a amlinellir isod, ond rydym yn hollol gytûn fod y Mesur ar y cyfan wedi'i ddrafftio'n drylwyr ac yn dda.

Diffyg eglurder yma ac acw yng nghymalau'r Mesur yw sail y pryderon a fynegwyd gan nifer o dystion, pryderon a rennir hefyd gan y Pwyllgor. Er na welwn fod angen diwygio'r Mesur i'w wneud yn gliriach, roedd nifer o dystion yn mynegi gobaith y byddai unrhyw ganllawiau i gyd-fynd â'r Mesur yn egluro'r meysydd canlynol er enghraifft:

- Sut mae ymdrin â materion traws-ffiniol. Nid yw hi'n glir pa Ombwdsmon sydd i helpu cleifion y GIG sy'n byw ar y naill ochr i'r ffin ac yn derbyn triniaeth ar yr ochr arall;

- Perthynas yr Ombwdsmon â Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cyngor Partneriaeth;

- Sut y gellir codi proffil yr Ombwdsmon. Nid yw bob amser yn glir i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth beth yw rôl yr Ombwdsmon a'r cyfyngiadau sydd ar eu pwerau ymchwilio;

- Rôl yr Ombwdsmon mewn ymchwiliadau aml-asiantaeth.

Argymhellwn gyhoeddi canllawiau i egluro:

- **Ymdrin â materion traws-ffiniol – dylid egluro beth sy'n digwydd pan geir cwyn ynghylch gwasanaeth traws-ffiniol; ai cyfeiriad cartref yr achwynydd ynteu cyfeiriad derbyn y gwasanaeth sy'n pennu pa Ombwdsmon ddylai ymdrin â'r cwyn hwnnw;**

- **Perthynas yr Ombwdsmon â Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cyngor Partneriaeth;**

- **Codi proffil yr Ombwdsmon. Dylid esbonio rôl yr Ombwdsmon a'r math o ymchwilio a wneir gan ddeilydd y swydd; a**

- **Rôl yr Ombwdsmon mewn ymchwiliadau aml-asiantaeth.**

2.2 Sylwadau ar gymalau penodol yn y Mesur

2.2.1 Atodlen 1 – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Penodi ayb.

Cymal 1

Mae Cymal 1 Atodlen 1 y Mesur yn cyfeirio at benodi'r Ombwdsmon. Roedd cefnogaeth o du'r tystion i'r penodiad fod yn benodiad y Goron. Roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gefnogol iawn i hyn gan y byddai'n eu galluogi i ofyn i swyddfa'r Ombwdsmon gyflwyno Cynllun Iaith Gymraeg. Rydym ni'n cefnogi bod swydd yr Ombwdsmon yn benodiad y Goron.

Nodwn, fodd bynnag, er mai dim ond ar ôl ymgynghori â'r Cynulliad y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu argymell diswyddo deilydd y swydd, (Atodlen 1, Cymal 3(5) ni cheir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer ymgynghori â'r Cynulliad wrth benodi'r Ombwdsmon.

Er bod Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ein sicrhau yn eu tystiolaeth lafar inni y byddai ymgynghori â'r Cynulliad yn digwydd cyn cymeradwyo'r penodiad, eto rydym o'r farn y dylai'r amod hwnnw gael ei nodi'n hollol eglur yn y Mesur.

Argymhellwn ddiwygio'r Mesur i gynnwys yr amod mai yn unig ar ôl ymgynghori â'r Cynulliad y bydd Yr Ysgrifennydd Gwladol yn cymeradwyo penodi'r Ombwdsmon.

Cymal 3

Mae Cymal 3 Atodlen 1 yn datgan mai 10 mlynedd yw cyfnod swydd yr Ombwdsmon. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Dirprwy Ombwdsmon yr Alban mai pum mlynedd oedd cyfnod swydd Ombwdsmon yr Alban gyda'r gallu i'w ailbenodi am gyfnod pellach o bum mlynedd. Dywedodd, fodd bynnag, y disgwylid i'r cyfnod fod *de facto* yr un fath â'r cynigion yn y Mesur

gan fod disgwyl i Ombwdsmyn yr Alban gael eu hailbenodi ar ddiwedd y pum mlynedd.

Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus y byddai'r cyfnod –swydd o ddeng mlynedd yn creu sefydlogrwydd yn y swydd a chaniatau cymryd golwg hirdymor.

Rydym ni'n meddwl, fodd bynnag, fod adolygu'r swydd ar ôl pum mlynedd yn caniatau mwy o atebolrwydd a thryloywder wrth asesu effeithiolrwydd yr Ombwdsmon.

Argymhellwn fod y Mesur yn cael ei ddiwygio i wneud cyfnod-swydd Ombwdsmon Cymru yn bum mlynedd gyda'r gallu i'w ailbenodi am bum mlynedd eto wedyn.

2.2.2 Atodlen 3 – Awdurdodau Rhestredig

Mae Atodlen 3 y Mesur yn rhestru'r awdurdodau y gall yr Ombwdsmon eu hymchwilio. Yn eu tystiolaeth inni, gofynnodd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymunedol (BCHC) am gael ei gynnwys fel awdurdod cofrestredig, am ei fod yn gorff a sefydlwyd dan *Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003.*

Argymhellwn ddiwygio'r Mesur i gynnwys y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymunedol fel awdurdod rhestredig yn Atodlen 3.

2.2.3 Atodlen 6 – Diwygio Canlyniadol

Mae Cymal 8(8) Atodlen 6, yn diwygio Rhan 23(10) *Deddf Llywodraeth Leol 1974* sydd yn galluogi'r Ombwdsmon yn Lloegr i gyfeirio achosion ar yr Ombwdsmon yng Nghymru. Dan yr Atodlen yma i'r Mesur, dilëir yr hawl hon.

Mae amryw o'r rhai sy'n rhoi tystiolaeth yn tynnu sylw at y newid hwn ac yn dweud eu bod yn anfodlon yn ei gylch. Yn ei thystiolaeth, cytunodd Ombwdsmon Seneddol y DU ac Ombwdsmon iechyd Lloegr fod angen edrych eto ar y rhan hon o'r Mesur. Mae'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yn Lloegr yn datgan yn eu tystiolaeth:

> Dan y darpariaethau hyn (*yn Neddf Llywodraeth Leol 1974)* y mae trefniadau cadarn i Ombwdsmon Llywodraeth Leol Lloegr drosglwyddo achosion unigol i Ombwdsmon Llywodraeth Leol Cymru i'w hymchwilio……Mae gallu'r Ombwdsmon yn y wlad arall i ymchwilio …yn ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd ddirnad annibyniaeth sefydliad yr ombwdsmon yn y ddwy wlad.

Cafwyd dadl gref am i'r trefniadau trosglwyddo gael eu hadfer.

Ni welwn unrhyw reswm dros beidio â chaniatau'r gallu i drosglwyddo achosion o Loegr i Gymru.

Argymhellwn ddiwygio'r Mesur i adfer gallu Ombwdsmon Llywodraeth Leol Lloegr i drosglwyddo achosion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Atodiad 1

Tystiolaeth lafar

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – 13 Ionawr 2005

Ms Vivienne Sugar, Cadeirydd - Cyngor Defnyddwyr Cymru

Mr Peter Johns, Cyfarwyddwr a Mr Tommy Morgan, Cadeirydd – Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru

Mr Steve Thomas, Cyfarwyddwr - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Ty'r Cyffredin (Ty Portcullis) 17 Ionawr 2002

Mr Adam Peat - Ombwdsmon Llywodraeth Leol, Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd ac Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a Mr Eric Drake - Dirprwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban

Sue Essex AC, Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Don Touhig, Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru a Ms Ann Abraham - Ombwdsmon Seneddol y DU ac Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd dros Loegr

Ceir trawsgrifiad llawn y sesiynau tystiolaeth lafar yr adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar graffu Mesur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru).

Gellir dod o hyd i'r adroddiad ar safle'r Pwyllgor ar y we: http://www.parliament.uk/parliamentary_committees/welsh_affairs_committee.cfm

Gellir cael copiau caled o'r adroddiad oddi wrth:

The Stationery Office (TSO)
PO Box 29
St Crispins
Duke Street
Norwich NR3 1GN

Tel: 0870 600 5522
Fax: 0870 600 5533
e-mail: book.orders@tso.co.uk
online ordering: www.tso.co.uk/bookshop

Atodiad 2

Tystiolaeth ysgrifenedig

Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru – Mr Peter Johns, Cyfarwyddwr

Cymdeithas Ombwdsmon Brydeinig a Gwyddelig – Mr Gordon Adams, Ysgrifennydd

Mr Mal Bowen

Canolfan ar Bopeth Cymru

Comisiwn Gweinyddiaeth Leol yn Lloegr – Mr Tony Redmond, Cadeirydd

Cyngor Sir Conwy – Pwyllgor Safonau

Mr Chris Drew, Aelod o Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Conwy

Sue Essex AC, Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a Don Touhig, Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru

Proffesiynau Iechyd Cymru – Mr Mick Fisher, Cynghorydd Proffesiynol

Mr John Hooson, Aelod o Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Conwy

Ombwdsmon Llywodraeth Leol, Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd ac Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru – Mr Adam Peat

Cyngor Dinas Casnewydd – Mr J G Ashurst, Pennaeth y Gyfraith a Safonau

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban

Dr A H Stamp

Ombwdsmon Seneddol y DU ac Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd dros Loegr – Ms Ann Abraham

Cyngor Defnyddwyr Cymru – Ms Viv Sugar, Cadeirydd

Bwrdd yr Iaith Gymraeg – Mr Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Strategol

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Mr Steve Thomas, Cyfarwyddwr

Gellir cael testun llawn y dystiolaeth ysgrifenedig yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar graffu Mesur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru).